Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

Nodyn Cyfarfod Cychwynnol

Enw'r prosiect	**Gorsaf Ynni Gwyndod**
Cyfeirnod yr achos	**EN0110040**
Statws	**Terfynol**
Awdur	**Yr Arolygiaeth Gynllunio**
Dyddiad y cyfarfod	**19 Mai 2026**
Cyfarfod gyda	**Great British Energy - Nuclear (GBE-N)**
Lleoliad	**Microsoft Teams**
Cylchrediad	Pawb a oedd yn bresennol

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeisydd (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai fod oedi o hyd at 6 mis cyn cyhoeddi'r nodyn cyfarfod cychwynnol, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno.

1. Y datblygiad arfaethedig

- **Disgrifiad manwl o'r datblygiad arfaethedig**

  Mae'r prosiect yn ceisio Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) i adeiladu o leiaf dri Adweithydd Modiwlar Bach (SMR) yn Wylfa ger Cemaes, ar arfordir gogleddol Ynys Môn yng Ngogledd Cymru. Mae'r Safle'n rhychwantu tua 225 o hectarau ac mae wedi leoli yn union i'r de a'r dwyrain o hen Orsaf Ynni Wylfa sydd wrthi'n cael ei datgomisiynu, ar hyn o bryd. Mae'r ymgeisydd wedi llofnodi cytundeb les 999 mlynedd ar gyfer y safle.

  Mae GBE-N wedi llofnodi contract gyda Rolls Royce SMR i ddarparu tri SMR. Mae'n bosibl y bydd y DCO yn ceisio cydsyniad ar gyfer SMRau ychwanegol ar y safle.

Mae'r SMR yn cynnwys Adweithydd Dŵr Dan Wasgedd, tri generadur ager a thri thyrbin ager a fydd yn pweru generaduron. Allbwn pob SMR yw 470 Mwe. Bydd y modiwlau sy'n ffurfio pob SMR yn cael eu gwneud mewn ffatri oddi ar y safle ac yn cael eu danfon i'r safle i'w cydosod yn derfynol.

Bwriedir tynnu dŵr ar gyfer oeri o Borth-y-pistyll.

Mae SMR Rolls-Royce yn mynd trwy broses Asesiad Dylunio Generig (GDA) gwirfoddol. Mae'r asesiad yn cael ei gynnal gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gwblhau cyn i'r cais am DCO gael ei gyflwyno. Gofynnodd yr Arolygiaeth a allai'r asesiad oedi cyflwyno'r cais. Esboniodd yr ymgeisydd y bydd unrhyw fân faterion a amlygir yn helpu i lywio materion i'w datrys. Petai unrhyw faterion critigol yn cael eu hamlygu, ac ni fyddai modd caniatáu trwydded safle niwclear, fe allai hynny oedi'r prosiect.

Cynghorodd yr Arolygiaeth y dylai'r rhaglen gynnwys cerrig milltir i helpu i fonitro cynnydd ac amlygu risgiau i'r archwiliad.

Bydd angen uwchraddio'r llinell bŵer bresennol i Ynys Môn a'r is-orsaf bresennol. Fe allai hyn fod yn destun DCO ar wahân, ond ni wyddys y graddfeydd amser ar gyfer y prosiect hwn, ar hyn o bryd. Mae'r ymgeisydd hefyd yn cynnig uwchraddio seilwaith trafnidiaeth yn rhan o'r cynllun, o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Bydd llety gweithwyr yn cael ei gynnwys yn y DCO, a bydd y lleoliad yn cael ei ddatblygu wrth i fanylion y cynllun esblygu.

Mae'n debygol y bydd angen cyfleuster dadlwytho morol, morglawdd a mewnlif dŵr oeri i gyflawni'r prosiect. Bydd yr elfennau hyn yn cael eu cynnwys yn y DCO os bydd angen.

Holodd yr Arolygiaeth a oedd yr ymgeisydd wedi ystyried deunydd ymgynghori'r Ysgrifennydd Gwladol o gais gwreiddiol Wylfa. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi ei ystyried.

- **Ymgysylltu'n gynnar â chyrff statudol ac awdurdodau lleol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill hyd yma**

  Mae gwaith ymgysylltu wedi dechrau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Cyngor Sir Ynys Môn, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.

- **Cyfyngiadau a materion amgylcheddol**

  Mae nifer o safleoedd yn agos i'r safle, gan gynnwys asedau pensaernïol a threftadaeth, Tirwedd Cenedlaethol Arfordir Ynys Môn, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cae Gwyn a SoDdGA Tre'r Gof, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), gan gynnwys ACA Bae Cemlyn ac AGA Môr-wenoliaid Ynys Môn. Mae'r ymgeisydd wrthi ar hyn o bryd yn ystyried strategaethau lliniaru a'r posibilrwydd o ddarparu tir

digolledu. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn adolygu'r mesurau digolledu ecolegol a gynigiwyd yn flaenorol i bennu ble a sut y gallant lywio cynigion wedi'u diweddaru. Amlygodd yr Arolygiaeth ei bod yn debygol bod llinellau sylfaen wedi newid ac y gallai effeithiau fod yn wahanol, ac y dylid ystyried hyn wrth bwyso a mesur mesurau digolledu priodol. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd y DCO yn cael ei seilio ar gyfres o arolygon ac asesiadau ecolegol newydd.

Mae dau ddrymlin (bryniau a ffurfiwyd gan iâ rhewlifol) yn bresennol ar y safle a chynigir eu symud ymaith, a byddai angen i hawl tramwy cyhoeddus a llwybr arfordirol gael eu gwyro'n barhaol.

Bydd angen gwneud gwaith sylweddol yn yr amgylchedd morol i ddarparu'r cyfleuster dadlwytho morol, y morglawdd a'r mewnlif dŵr oeri. Bydd angen ffrwydro creigiau i adeiladu'r elfennau hyn; bydd argae coffr yn cael ei ddefnyddio i leihau effeithiau o'r gweithgareddau hyn gymaint â phosibl. Mae'r Arolygiaeth yn nodi y bydd angen Trwydded Forol Dybiedig ar gyfer hyn a gofynnodd a yw'r ymgeisydd wedi cysylltu â CNC. Mae'r ymgeisydd wrthi'n amlygu'r gwaith sy'n ofynnol a chadarnhaodd fod arolygon yn mynd rhagddynt; cadarnhaodd hefyd ei fod yn trafod gyda CNC.

Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn ystyried budd net i fioamrywiaeth o dan y gyfundrefn berthnasol yng Nghymru.

- **Cwmpasu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)**

  Gofynnodd yr Arolygiaeth a fyddai SMRau ychwanegol y tu hwnt i'r tri cychwynnol y mae Rolls Royce dan gontract i'w darparu yn arwain at fwy o effeithiau. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y byddai mwy o effeithiau, yn enwedig o ran materion adeiladu a thrafnidiaeth, ond na wyddys yr effeithiau, ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd yr SMRau yn cael eu gwneud mewn ffatri oddi ar y safle ac y bydd cydrannau'n cael eu danfon i'r safle datblygu, a fydd yn effeithio ar lefel yr effeithiau a'r math o effeithiau.

  Gofynnodd yr Arolygiaeth a fyddai'r prosiect yn ceisio cadw opsiynau'n agored yn yr ymarfer cwmpasu o ran nifer yr SMRau a gynigir. Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd nifer yr adweithyddion yn cael eu cadarnhau cyn hynny.

- **Arolygon amgylcheddol**

  Mae'r ymgeisydd eisoes wedi cynnal dadansoddiad manwl o adroddiad argymhelliad yr Awdurdod Archwilio, data amgylcheddol a Datganiadau Tir Cyffredin, a deunyddiau eraill, a gynhyrchwyd i gefnogi pob cam o gais (gan gynnwys archwiliad) Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa a gynigiwyd gan Horizon Nuclear Power i helpu i lywio ei ddull. Tynnwyd y cais DCO hwn yn ôl ym mis Ionawr 2021.

  Cynghorodd yr Arolygiaeth ei bod yn bwysig cydnabod y gallai polisi a data amgylcheddol fod wedi newid, felly ei bod yn hanfodol sicrhau bod y data'n ddibynadwy. Fe'i cynghorwyd hefyd y gallai unrhyw awdurdod archwilio a benodir i archwilio'r cynllun SMR hwn ar gyfer archwiliad Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa Newydd ddod i gasgliadau gwahanol. Mae'r ymgeisydd yn cydnabod hyn ac yn

cynnal ei arolygon ei hun, ar hyn o bryd.

- **Tir a hawliau: Cwmpas pwerau caffael gorfodol ac ati a geisir a chyfyngiadau a materion posibl**

  Mae GBE-N yn berchen ar y safle yn rhannol, ac mae tir sy'n weddill eisoes wedi'i sicrhau trwy les 999 mlynedd gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

- **Ymgynghoriad (statudol ac anstatudol)**

  Cadarnhaodd yr ymgeisydd y bydd nifer yr adweithyddion yn cael eu cadarnhau'n derfynol i'w cynnwys yn y cais cwmpasu AEA a'r ymgynghoriad cam 2.

- **Y Gymraeg**

  Datganodd yr Arolygiaeth fod gwybodaeth ddwyieithog yn ofyniad ar gyfer y prosiect hwn. Cydnabu'r ymgeisydd hyn, a chadarnhaodd y bydd rhai o'r dogfennau ymgynghori a'r dogfennau cais yn cael eu cyfieithu.

  Gofynnodd yr Arolygiaeth, o ran symudiadau gweithwyr, a oedd yr ymgeisydd wedi ystyried pryderon a godwyd yn ystod archwiliad Wylfa Newydd ynglŷn â diogelwch a'r posibilrwydd o wanhau'r Gymraeg. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod wedi ystyried hynny. Pwysleisiodd fod y Gymraeg yn bwysig i'r prosiect ac yn nodwedd allweddol o'i ddatblygiad. Er ei fod yn bwriadu recriwtio'n lleol, lle bynnag y bo'n bosibl, cydnabu y bydd rhai o'r gweithlu'n dod o'r tu allan i'r ardal ac efallai na fyddant yn siarad Cymraeg. Nododd hefyd ymgysylltiad parhaus ag ysgolion cynradd i hyrwyddo pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), gan gydnabod y cyfleoedd hirdymor sy'n gysylltiedig ag adeiladu yn y dyfodol.

- **Dyddiad cyflwyno**

  Nododd yr Arolygiaeth y rhaglen arfaethedig, gan ddisgwyl Cwmpasu yn y gwanwyn 2027 a chyflwyno'r cais yn y gaeaf 2028, a gofynnodd a allai'r amserlen hon lithro yn dibynnu ar gynnydd gyda'r Asesiad Dylunio Generig. Dywedodd yr ymgeisydd nad oedd yn disgwyl oedi, a phetai oedi'n digwydd na fyddai'n sylweddol, gan nodi bod y broses Asesiad Dylunio Generig eisoes yn mynd rhagddi a bod materion yn derbyn sylw'n weithredol. Esboniodd fod y rhan fwyaf o'r materion allweddol wedi cael eu hamlygu a'u bod yn derbyn sylw, er efallai y bydd rhai materion heb eu datrys ar yr adeg cyflwyno. Nododd yr Arolygiaeth y byddai'n ddefnyddiol petai'r ymgeisydd yn rhoi gwybod iddi am unrhyw ddatblygiadau perthnasol. Cadarnhaodd yr ymgeisydd hefyd fod Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r dull hwn.

Atodiad A

Y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod

Sefydliad	Rôl
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Rheolwr Gweithrediadau
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Arweinydd Gweithrediadau
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Rheolwr Achos
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Swyddog Achos
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Swyddog Achos
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Swyddog Achos
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Uwch Gynghorydd Amgylcheddol
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Cynghorydd Amgylcheddol
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Gwasanaethau Amgylcheddol – Arweinydd Gweithrediadau
GBE-N	Arweinydd Caniatadau Amgylcheddol
GBE-N	Rheolwr Cynllunio
GBE-N	Rheolwr Asesu Effeithiau Amgylcheddol
GBE-N	Rheolwr Trwyddedu
Quod	Uwch Gyfarwyddwr
Quod	Cyfarwyddwr Cyswllt